**Dyddiad:** 14 Chwefror 2023

**Ymholiad**: Mynychodd yr Arolygiaeth Grŵp Llywio ar-lein ar gyfer Prosiectau Asedau Generadu Morgan ac Ynni Gwynt Alltraeth Mona. Darparodd y cyfarfod fanylion ychwanegol am ddethol safle, cynnydd arolygon sylfaenol a methodoleg asesu adaregol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Rhoddodd yr Arolygiaeth y cyngor a nodir isod.

**Cyngor**:

- Nododd yr Arolygiaeth y bu trafodaethau helaeth ynglŷn â methodoleg asesu adaregol mewn archwiliadau blaenorol o ffermydd gwynt alltraeth, gan gynnwys dadleoli a chyfraddau marwolaethau a ffigurau dosrannu. Cynghorodd y dylid cytuno ar y rhain gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Natural England (NE) cyn gynted â phosibl yn ystod y cam cyn-ymgeisio er mwyn lleihau'r perygl y gallent arwain at broblemau posibl yn yr Archwiliad. Os na ellir cytuno, cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i gyflwyno fersiynau amgen o'r asesiad gan ddefnyddio'r paramedrau a ffefrir gan bob parti, gan ei bod yn debygol y byddai hyn yn cael ei geisio yn ystod yr Archwiliad fel arall.
- Byddai'r Arolygiaeth yn disgwyl i unrhyw lwybr effaith sy'n symud ymlaen i asesiad priodol gael ei ystyried yng ngoleuni amcanion cadwraeth, yn unol â gofynion y Rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r Arolygiaeth yn derbyn, mewn egwyddor, y gallai faint o fanylion sy'n ofynnol amrywio yn dibynnu ar y safle Ewropeaidd/nodwedd gymwys/llwybr effaith. Mae'n synhwyrol ceisio dull cymesur o asesu.
- Mae'r Arolygiaeth yn argymell bod yr Ymgeisydd yn cynnwys cytundeb gyda CNC/NE yn ei gais sy'n dangos bod yr arolygon adaregol wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effeithiau posibl Ffliw Adar Pathogenig Iawn ar y poblogaethau sylfaenol.